**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 15 Ebrill 2021 am 10.30 am**

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Abertawe) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| Emlyn Dole | Cyngor Sir Gâr |
| Ted Latham | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| David Simpson | Cyngor Sir Benfro |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Chris Foxall | Cadeirydd dros dro Bwrdd Strategaeth Economaidd Abertawe |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Richard Arnold | Rheolwr Cyllid (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Peter Austin | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Jonathan Burnes | Cyfarwyddwr (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Abertawe) |
| Jason Garcia | Archwilio Cymru |
| Jon Haswell | Swyddog S151 (Cyngor Sir Benfro) |
| Tracey Meredith | Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe) |
| Chris Moore | Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gâr) |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr (Cyngor Abertawe) |
| Wendy Walters | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Y Cynghorydd(wyr)

Maria Battle (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda), Medwin Hughes (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant), Steve Wilks (Prif Ysgol Abertawe) a/ac Emma Woollett (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe)

Richard Brown (Prif Weithredwr Dros Dro (Cyngor Sir Benfro))

---

## 48 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**49 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2021 fel cofnod cywir.

**50 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.**

Ni chafwyd unrhyw gyhoeddiadau.

**51 Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

**52 Adroddiad Amlygu Bargen Ddinesig Bae Abertawe.**

Cyflwynodd Jonathan Burnes (Cyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe) adroddiad "er gwybodaeth" a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyd-bwyllgor am gynnydd y gwahanol raglenni a phrosiectau sy'n rhan o Bortffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Amlinellodd y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- Isadeiledd digidol
- Prosiect Morol Doc Penfro
- Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer
- Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel
- Campysau Gwyddor Bywyd a Lles
- Pentre Awel
- Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau
- Sgiliau a doniau
- Yr Egin

**53 Archwilio Cymru - Archwiliad Allanol 2020/2021.**

Cyflwynodd Jason Garcia (Archwilio Cymru) adroddiad a oedd yn cyflwyno cynllun arfaethedig a chwmpas Archwiliad Allanol 2020-21 Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â Datganiad o Gyfrifon Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo cynllun arfaethedig a chwmpas Archwiliad Allanol 2020-21 Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â Datganiad o Gyfrifon Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**54 Adborth o Ddigwyddiad Caffael Bargen Ddinesig Bae Abertawe. (Ar lafar)**

Cyflwynodd Peter Austin (Swyddfa Ranbarthol Dinas-Ranbarth Bae Abertawe) adroddiad ar lafar a oedd yn rhoi adborth o'r Digwyddiad Caffael a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2021.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.56 am

**Cadeirydd**